# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd Ac_Allanol

## EUR(3)-10-08 : (Papur 1) : 13 Tachwedd 2008-11-06

### Adroddiad y Gweinidog

### Diben

Darperir yr adroddiad hwn mewn ymateb i wahoddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o faterion ac yn benodol, ar gais y Cadeirydd, am gyllideb yr UE; strategaeth Lisbon; sybsidiaredd; y cynnydd o ran cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar Archwiliad Iechyd y PAC ac ymateb y Prif Weinidog i Flaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd.

## Argymhelliad

1. Bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

### Cefndir

2. Anerchais y Pwyllgor ddiwethaf ar 19 Mehefin 2008.  Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

### Gweithgareddau Rhyngwladol Y Prif Weinidog

- **23/24 Mehefin 2008 - Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Mr Ron Prosor, Cennad Gwladwriaeth Israel, ynghyd â Dirprwy Bennaeth y Llysgenhadaeth a Swyddog Diwylliannol.**

Yn ystod ei ymweliad nododd Ei Ardderchogrwydd Lysgennad Ron Prosor, Cennad Gwladwriaeth Israel a minnau feysydd posibl o gydweithredu rhwng Cymru ac Israel fel gwyddorau gwledig a chnwd, arbed ynni / newid yn yr hinsawdd, masnach ac addysg.

Creodd y Swyddog Diwylliant, a ddilynodd raglen ar wahân, gysylltiadau ag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Gŵyl Lyfrau y Gelli, tîm Marchnata a Noddi Cyngor Sir Caerdydd a swyddogion y Cynulliad ym maes Diwylliant a Busnes Creadigol.

- **26 Mehefin 2008 – Digwyddiad Cysylltiadau Somaliland Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd**

Trefnwyd y digwyddiad hwn gan Brosiect Cysylltiadau Cymunedol Somaliland Cymru a ariennir gan Raglen Cymru o blaid Affrica Llywodraeth Cynulliad Cymru. Aeth dros 100 o aelodau o'r gymuned Somaliland yng Nghymru i'r digwyddiad ynghyd â chynrychiolwyr o'r gymuned ehangach yng Nghymru. Cyfarfûm ag Edna Adan Ismail, gwraig cyn-Brif Weinidog Somalia ac yna Somaliland sydd wedi adeiladu ysbyty mamolaeth yn Hargeisa, prif ddinas

Gweriniaeth Somaliland na chaiff ei chydnabod. Yn ei haraith anogodd y llu o bobl ifanc a oedd yn bresennol o'r gymuned Somaliland yng Nghymru, mewn anerchiad ysbrydoledig, i fanteisio ar y cyfleoedd a geir yng Nghymru ac i ddechrau gwneud mwy dros y wlad lle cafodd eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau eu geni.

- **27 Mehefin 2008 – Anerchiad i Gynhadledd Flynyddol Grŵp Cysylltiadau Iechyd GIG Cymru o blaid Affrica, Canolfan Dylan Thomas yn Abertawe**

Rhoddodd y gynhadledd hon gyfle i gefnogi a hyrwyddo gwaith Grŵp Cysylltiadau Iechyd GIG Cymru o blaid Affrica ac i annog rhannau eraill o'r GIG yng Nghymru i gymryd rhan.

- **30 Mehefin 08 - Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Carlos Santos-Neves, Llysgennad Brasil yn y DU**

Roedd yn bleser gennyf groesawu Ei Ardderchogrwydd Lysgennad Carlos Santos-Neves, a benodwyd yn ddiweddar yn Llysgennad Brasil yn y DU, ar ymweliad ymgyfarwyddo â Chymru.

Cyfarfu'r Llysgennad â Phennaeth Hyfforddiant Cyn Gemau Olympaidd 2012 Cymru a chytunodd i drosglwyddo manylion am leoliadau yng Nghymru i'w gydweithwyr ym Mrasil. Roedd hefyd yn awyddus i drefnu bod aelodau o'i dîm masnach yn dod i Gymru i drafod cyfleoedd sector rhwng cwmnïau ym Mrasil a Chymru.

- **1 a 2 Gorffennaf 08 - Ymweliad gan Aelodau o Bwyllgor Sefydlog Senedd Baden-Württemberg, yr Almaen**

Fel rhan o'r ymweliad ymgyfarwyddo hwn gan Aelodau o Bwyllgor Sefydlog Senedd Baden-Württemberg, gwnaethom drafod nifer o faterion yn cynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Baden-Württemberg a ph'un a oedd angen ei ailweithredu.

Llwyddodd aelodau'r pwyllgorau AEE ac EL drafod materion o ddiddordeb arbennig i'w meysydd gwaith.

- **9 Gorffennaf 2008 – Ymweliad gan Edgar Zalans, Gweinidog dros Ddatblygu Rhanbarthol a Llywodraeth Leol Gweriniaeth Latfia.**

Roedd Edgar Zalans, Gweinidog dros Ddatblygu Rhanbarthol a Llywodraeth Leol Gweriniaeth Latfia yn awyddus i ddysgu mwy am ddatblygu hirdymor yng Nghymru ac yn arbennig 'Cynllun Gofodol Cymru'. Gwnaed trefniadau i'r Gweinidog gyfarfod ag Ysgol Cynllunio Dinas a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd, ymweld â'r Senedd, Bae Caerdydd a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol.

Deallaf fod y Gweinidog wedi awgrymu dychwelyd i Gymru gyda swyddogion cynllunio eraill i drafod 'Cynllun Gofodol Cymru' yn fanylach.

- **10 Gorffennaf 2008 – Cyfarfod gyda Dr Dmetri Piskounov, Rheolwr Gyfarwyddwr Is-adran Datblygu Rhaglen a Chydweithrediad Technegol Sefydliad Datblygu Diwydiannol y Cenhedloedd Unedig (UNIDO)**

Cyfarfûm â Dr Dmetri Piskounov yn ystod ei ymweliad â Chymru i ddeall yn well yr hyn y gallai Cymru ei wneud i helpu cenhadaeth Sefydliad Datblygu Diwydiannol y Cenhedloedd Unedig (UNIDO) i gael gwared ar dlodi mewn gwledydd sy'n datblygu drwy ddatblygiad diwydiannol cynaliadwy.

- **21 Gorffennaf 2008 – Derbyniad a gynhaliwyd gan Brif Weinidog Gweriniaeth Ffrainc, François Fillon a'i wraig Penelope ym Mharis**

Roedd yn bleser gennyf fynd i dderbyniad a gynhaliwyd gan y Prif Weinidog François Fillon a'i wraig Penelope, sy'n Gymraes (o Lanofer ger y Fenni) yn eu cartref swyddogol, Hotel Matignon, i annog mwy o fuddsoddiad gan Ffrainc yng Nghymru, a mwy o fasnach a phartneriaeth rhwng y ddwy wlad.

- **2 a 3 Awst 2008 – Ymweliad gan Faer Wang, Maer Rhanbarth Dinesig Chongqing, Tsieina a'i ddirprwy**

Croesawais Faer Wang a'i ddirprwy i Gymru fel enghraifft arall o'r gydberthynas a ddatblygwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf â Rhanbarth Dinesig Chongqing. Ymwelodd y ddirprwyaeth ag Enfis, y cwmni o Abertawe sydd â menter ar y cyd â chwmni Offer Meddygol Tianhai, Chongqing; Technium Abertawe; Amgueddfa Genedlaethol y Glannau; a Techniquest.

- **8 Awst 2008 – Cyfarfod gyda Maer Chubut**

Cyfarfûm â Maer Chubut pan ymwelodd â'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae'n awyddus iawn i gynnal y cysylltiad rhwng Cymru a threftadaeth Gymreig y Wladfa. Mae'n cynrychioli cenhedlaeth newydd o arweinwyr a etholwyd yn lleol ym Mhatagonia.

- **4 Medi 2008 – Digwyddiad Cyngres UDiTE**

Rhoddais yr anerchiad agoriadol i UDiTE, sef Ffederasiwn Ewrop ar gyfer Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol o dros 14 o wledydd yn Ewrop. Roedd y digwyddiad yn cael ei gynnal yng Nghymru am y tro cyntaf ac roedd yn gyfle i annerch llunwyr polisi allweddol ac arddangos Caerdydd a Chymru.

- **9 Medi 2008 – Ymweliad Llysgennad Gweriniaeth Latfia yn y DU, Ei Ardderchogrwydd Mr Indulis Berzins**

Aeth Ei Ardderchogrwydd Mr Indulis Berzins, Llysgennad Gweriniaeth Latfia yn y DU, i ddigwyddiad Cyngor Ffug yr UE gyda mi gan fod Ysgol Uwchradd Jaunpiebalga, Latfia (sydd wedi'i gefeillio ag Ysgol Gyfun Tredegar) yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

Ymunodd y Llysgennad â mi hefyd i gyfarfod â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Latfia a oedd yn mynychu Cynhadledd UDiTE yng Nghaerdydd.

- **10 Medi – Cinio Sefydliad Eiddo Deallusol y Byd (WIPO)**

Roeddwn yn siaradwr gwadd yng nghinio gala WIPO. Roedd y cinio'n dynodi dechrau Fforwm deuddydd WIPO ar Eiddo Deallusol, a oedd yn cwmpasu'r defnydd o asedau eiddo deallusol gan arloeswyr a chwmnïau bach a chanolig. Daeth cynrychiolwyr o 30 o wledydd a 50 o sefydliadau i'r fforwm eleni, sef y 5ed fforwm i gael ei gynnal, a'r cyntaf yng Nghymru.

- **19 – 21 Medi 2008 - Cwpan Ryder, Kentucky**

Ymwelais â Kentucky ym mis Medi i fynd i gystadleuaeth olaf Cwpan Ryder cyn i'r digwyddiad mawr hwn ddod i Gymru ym mis Hydref 2010. Mae'n hanfodol bod Cymru'n dysgu'r holl wersi posibl gan eraill sydd wedi cynnal y digwyddiad er mwyn sicrhau'r llwyddiant mwyaf posibl pan ddaw Cwpan Ryder i Gasnewydd.

- **6 Hydref 2008 – Cyfarfod gyda Llysgennad yr UD yn y DU, Ei Ardderchogrwydd Robert Tuttle**

Cyfarfûm â'i Ardderchogrwydd Lysgennad Tuttle yn Llysgenhadaeth yr UD yn Llundain. Gwnaethom drafod y sefyllfa ariannol fyd-eang a'i heffaith ar fewnfuddsoddiad yn America ac ailfuddsoddiad gan gwmnïau Americanaidd sydd eisoes yng Nghymru.

- **7 – 8 Hydref 08 – Ymweliad gan Lysgennad Gwlad Pwyl yn y DU, Ei Hardderchogrwydd Ms Barbara Tuge-Erecińska**

Cyfarfûm â'r Llysgennad a daeth y Prif Gonswl, sy'n gweithio ym Manceinion ac sydd â chyfrifoldeb dros Gymru, gyda hi. Dywedodd y Llysgennad ei bod yn bwriadu penodi conswl anrhydeddus i Wlad Pwyl yng Nghymru. Cyfarfu hefyd ag aelodau o'r gymuned Bwylaidd yng Nghymru.

- **8 Hydref 2008 – Cyfarfod gyda Gweinidog Uganda, Luwero Triangle**

Cyfarfûm â Gweinidog Uganda a gwnaethom drafod y cyfle i hyrwyddo cysylltiadau cryfach byth rhwng Cymru ac Uganda. Cyfarfu â'r prif unigolion sy'n arwain prosiectau gan Gymru yn Uganda, y mae rhai ohonynt yn ardal Luwero Triangle.

- **10 Hydref 2008 – Fforwm Cymru ar Ewrop, Coleg y Drindod, Caerfyrddin**

Cynhaliais Fforwm Cymru ar Ewrop a oedd yn canolbwyntio ar Flwyddyn Trafod Rhyngddiwylliannol Ewrop 2008. Ceir rhagor fanylion am y digwyddiad yn ddiweddarach yn fy adroddiad.

- **15 a 16 Hydref 2008 – Ymweliad Arlywydd Gweriniaeth Estonia, Mr Toomas Hendrik Ilves**

Roedd yn bleser gennyf groesawu Arlywydd Gweriniaeth Estonia Mr Toomas Hendrik Ilves i Gymru am y tro cyntaf. Anerchodd yr Arlywydd y Cynulliad hefyd.

- **15 Hydref 2008 – Ymweliad Llysgennad Gweriniaeth Kazakhstan, Ei Ardderchogrwydd Mr Kairat Abusseitov**

Penodwyd Ei Ardderchogrwydd Mr Kairat Abusseitov yn Llysgennad Gweriniaeth Kazakhstan yn ddiweddar.

Yn ystod fy nghyfarfod ag ef gwnaethom drafod y posibilrwydd o gydweithredu ym maes addysg, IGER, ADAS, Amaethyddiaeth / coedwigaeth a mwynau.

- **16 Hydref 2008 – Ymweliad Llysgennad Gweriniaeth Ffederal yr Almaen, Ei Ardderchogrwydd Mr Georg Boomgaarden**

Dyma ymweliad cyflwyniadol arall gan lysgennad a benodwyd yn ddiweddar a roddodd gyfle iddo ymgyfarwyddo â'r gwahanol ranbarthau yn y DU a'r broses o ddatganoli. Cymru yw'r rhan gyntaf o'r DU, y tu allan i Lundain, iddo ymweld â hi hyd yma. Gwnaethom drafod y wasgfa gredyd a chyllid gweinyddiaethau datganoledig yn y DU a'r Almaen, yng nghyd-destun Comisiwn Holtham.

Briffiwyd y Llysgennad ar ddatganoli a'r Iaith Gymraeg. Cyfarfu â swyddogion Busnes Rhyngwladol Cymru ac ymwelodd â chwmni Waldon Ltd yn Nhonyrefail - gweithgynhyrchwr cerbydau modur o'r Almaen.

- **16 Hydref 2008 – Cyfarfod gyda Leonard Orban, Comisiynydd Ewrop dros Amlieithrwydd**

Cyfarfûm â Chomisiynydd Ewrop dros Amlieithrwydd, Leonard Orban i drafod amlieithrwydd a'r defnydd o'r Gymraeg yn sefydliadau'r UE.

Roedd y Comisiynydd yng Nghaerdydd i gyfarfod ag aelodau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac i ymweld ag ysgol cyfrwng Cymraeg. Cefais y cyfle i siarad â'r Comisiynydd ar y cyd â'r Gweinidog dros Dreftadaeth. Cyfarfu'r Comisiynydd hefyd â'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac Aelodau'r Cynulliad ac aeth i dderbyniad yn Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

- **17 Hydref 2008 – Ymweliad yr Ysgrifennydd Tramor, y Gwir Anrhydeddus David Miliband**

Cyfarfûm â'r Gwir Anrhydeddus David Miliband AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad, yn ystod ei ymweliad â Chymru, a chynhaliais ginio ar ei gyfer. Ymhlith y gwesteion roedd cynrychiolwyr o bleidiau gwleidyddol eraill, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a Chyfarwyddwr y Cyngor Prydeinig yng Nghymru. Yn ystod y prynhawn ymunais â'r Ysgrifennydd Tramor mewn sesiwn holi ac ateb ar gyfer cynulleidfa wadd o'r gymuned Somali.

- **20 Hydref 2008 – Cyfarfod gyda Danuta Hübner, Comisiynydd Ewrop dros Bolisi Rhanbarthol**

Cyfarfûm â Chomisiynydd Ewrop dros Bolisi Rhanbarthol, Danuta Hübner, a oedd yng Nghaerdydd i siarad yng nghyfarfod yr Homologues Group, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff rheoli cenedlaethol yn y 27 o aelod-wladwriaethau, yn ogystal â gwasanaethau archwilio Cronfeydd Strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd, Swyddfa Gwrth-dwyll Ewrop (OLAF) a Llys Archwilwyr Ewrop.

Trafododd y Comisiynydd a minnau faterion yn ymwneud â Chronfeydd Strwythurol a chydweithredu rhwng Cymru a'r Comisiwn.

- **12 Tachwedd 2008 - Derbyniad gyda Brenin Letsie III, Brenin Lesotho**

Diben y derbyniad hwn oedd croesawu Brenin Lesotho i Gymru - ar adeg gêm rygbi rhwng Cymru a De Affrica yng Nghaerdydd a hefyd i hyrwyddo'r cysylltiadau cryf sydd eisoes yn bodoli rhwng Cymru a Lesotho.

## Materion Eraill

## Cyllideb Yr Ue

Fel y nodwyd yn fy adroddiad blaenorol, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar Adolygiad o Gyllideb yr UE ym mis Ebrill. Nododd yr ymateb ein barn ar gyfeiriad gwariant yr UE ar ôl 2013, gan hyrwyddo cymorth ariannol parhaus i gyflawni nodau Strategaeth Lisbon yr UE o ran twf a swyddi (gan ymgorffori agenda Gothenburg ar gyfer datblygu cynaliadwy), sicrhau cyllid pontio ar gyfer rhanbarthau nad ydynt yn cael cyllid Cydgyfeirio mwyach a symleiddio ymhellach y broses o reoli cyllid yr UE. Mae'r ymateb ar gael, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan y Comisiwn ar gyfer diwygio'r gyllideb.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Llywydd y Comisiwn José Manuel Barroso yn cynnal cynhadledd ym mis Tachwedd ar "Ddiwygio'r Gyllideb, Newid Ewrop". Bydd un o'm swyddogion yn cynrychioli Llywodraeth y Cynulliad.

Disgwyliwyd y byddai'r Comisiwn yn cyhoeddi Papur Gwyn yn rhan olaf 2008, gan adeiladu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gynhadledd. Fodd bynnag, mae'n debygol bellach na chaiff hwn ei gyhoeddi tan y flwyddyn nesaf. Bydd fy swyddogion yn parhau i gymryd rhan lawn yn y broses o Adolygu Cyllideb yr UE.

## Strategaeth Lisbon

Ers fy adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, mae'r gwaith ar Raglen Ddiwygio Genedlaethol y DU (NRP) ar gyfer eleni, sef y ddogfen sy'n rhoi manylion am bolisïau'r DU sy'n cefnogi Strategaeth Lisbon yr UE ar gyfer twf a swyddi, wedi parhau gyda chyfranogiad llawn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cymerodd un o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ran mewn cyfarfod yn y Trysorlys ym mis Mehefin i drafod yr NRP, a oedd yn cynnwys tîm o'r Comisiwn a swyddogion o Adrannau Whitehall a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Arweiniodd ein cyfranogiad a'n rhan yn y broses at gynnwys amrywiaeth sylweddol o gyfraniadau gan Lywodraeth y Cynulliad yn nogfen eleni. Roeddent yn cwmpasu nifer o feysydd yn cynnwys: sgiliau a hyfforddiant; cyflogaeth; ymchwilio a datblygu, arloesedd ac entrepreneuriaeth; cymorth i fusnesau; gofal plant; cyflenwad tai; newid yn yr hinsawdd; ynni; a datblygu cynaliadwy.

Cymeradwyais yr NRP, ynghyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a Phwyllgor Cabinet perthnasol Llywodraeth y DU, ar ddechrau mis Medi a chyhoeddwyd y ddogfen ac fe'i cyflwynwyd i'r Comisiwn ar ddiwedd y mis. Disgwylir y bydd y Comisiwn yn ymateb i'r Rhaglen, ac yn cyhoeddi argymhellion, ym mis Rhagfyr.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau'n ymrwymedig i Strategaeth Lisbon a bydd fy swyddogion yn parhau i gymryd rhan yn y broses o lunio'r NRP. Disgwylir y bydd yr UE, a'i Haelod-wladwriaethau a rhanbarthau, yn dechrau ystyried dyfodol Strategaeth Lisbon y tu hwnt i 2010 yn fuan iawn a bydd fy swyddogion yn cyfrannu'n llawn at y broses honno.

## Sybsidiaredd

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiddordeb mawr yn yr egwyddor o sybsidiaredd ac, yn wir, cymerodd gamau gweithredol i sicrhau cyfeiriadau at yr egwyddor yn y Cytuniad sy'n sefydlu Cyfansoddiad i Ewrop. Parhawyd â'r ymagwedd hon a chafodd Protocol Sybsidiaredd ei gynnwys yng Nghytuniad Lisbon.

O dan y Protocol, pe bai'n dod i rym, cyfrifoldeb pob senedd genedlaethol (Aelod-wladwriaeth) neu bob siambr mewn senedd genedlaethol fyddai ymgynghori, lle y bo'n briodol, â seneddau rhanbarthol â phwerau deddfwriaethol ar gydymffurfiaeth deddfau drafft â'r egwyddor o sybsidiaredd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r dull hwn. Bydd y camau nesaf yn dibynnu ar ganlyniad proses y Cytuniad.

## Archwiliad Iechyd Y Pac

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt yn yr UE. Y nod o hyd yw dod i gytundeb gwleidyddol yn y Cyngor Datblygu Amaethyddol a Gwledig ym mis Tachwedd.

Mae Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae rhan lawn yn y broses o lywio blaenoriaethau trafodaethau'r DU wrth i ddigwyddiadau symud tuag at safbwynt terfynol yr UE.

## Blaenraglen Waith Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae cyhoeddiad Blaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd wedi'i ohirio; felly nid yw'n bosibl cynnwys dadansoddiad yn fy adroddiad. Mae'r Flaenraglen Waith yn debygol o fod yn fyr gan y bydd ond yn cwmpasu'r cyfnod hyd nes y daw'r Comisiwn nesaf i rym a bydd yn destun adolygiad.

## Cytuniad Lisbon

Cyflwynodd Prif Weinidog Iwerddon, Brian Cowen, ddadansoddiad o ganlyniadau'r refferendwm ar Gytuniad Lisbon i Gyngor yr Undeb Ewropeaidd ym mis Hydref. Bydd Llywodraeth Iwerddon yn parhau i ymgynghori gyda'r nod o gyfrannu tuag at ddod o hyd i ffordd o ddatrys y sefyllfa. I'r perwyl hwnnw, cytunodd y Cyngor i aildrafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr gyda'r nod o geisio diffinio elfennau o ateb a llwybr cyffredin i'w ddilyn.

## Cydbwyllgor Gweinidogion Ar Yr Undeb Ewropeaidd (Jmc(E))

Euthum i'r JMC(E) ddydd Llun 6$^{ed}$ Hydref. Ymhlith yr eitemau a drafodwyd roedd y rhagolygon ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd (a gynhaliwyd yn ddiweddarach ar 15$^{fed}$ a'r 16$^{eg}$ Hydref), cydlynu'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn y DU, a Newid yn yr Hinsawdd. Mae cyfarfod nesaf y JMC(E) wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 1$^{af}$ Rhagfyr.

## Cydlyniant Tiriogaethol

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Bapur Gwyrdd ar Gydlyniant Tiriogaethol ar 6 Hydref, gan ddechrau ymgynghoriad a ddaw i ben ddiwedd mis Chwefror 2009. Mae'n debygol y bydd y gwaith ar Gydlyniant Tiriogaethol yn rhedeg ochr yn ochr â'r Adolygiad parhaus o Gyllideb yr UE. Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad ran mewn cynhadledd ar Gydlyniant Tiriogaethol, a drefnwyd gan Lywyddiaeth Ffrainc o'r UE, ar ddiwedd mis Hydref a byddwn yn parhau i chwarae rhan lawn yn y broses. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ymateb i'r ymgynghoriad a byddem hefyd yn annog rhanddeiliaid yng Nghymru i ymateb.

## Cyngor Ffug yr Undeb Ewropeaidd - 9 Medi 2008
## Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Cynhaliodd Ysgrifenyddiaeth Polisi UE yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol Gyngor Ffug o'r Undeb Ewropeaidd yn y Siambr Fach yn Nhŷ Hywel. Llywyddwyd y digwyddiad gennyf i ac fe'i cadeiriwyd gan Sandy Mewies AC. Cymerodd myfyrwyr o 27 o ysgolion ledled Cymru ac un ysgol o Latfia ran yn

y Cyngor Ffug, gan adlewyrchu ein cydberthynas ddwyochrog. Roedd pob un o'r ysgolion yn cynrychioli llywodraeth un o Aelod-wladwriaethau'r UE, gyda'r ysgol olaf yn cynrychioli'r Comisiwn Ewropeaidd.

Trafododd y myfyrwyr ddau fater amserol sy'n effeithio ar yr Undeb Ewropeaidd gan bleidleisio arnynt, sef Newid yn yr Hinsawdd (y defnydd o ynni adnewyddadwy) ac Ehangu. Roedd Reijo Kemppinen, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yn y DU hefyd yn bresennol ynghyd â'i Ardderchogrwydd Indulis Bērziņš, Llysgennad Gweriniaeth Latfia yn y DU. Dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath ond disgwylir iddo ddod yn ddigwyddiad blynyddol.

## Blwyddyn Trafod Rhyngddiwylliannol Ewrop - 10 Hydref 2008 Coleg y Drindod, Caerfyrddin

Cynhaliwyd Fforwm Cymru ar Ewrop gan Ysgrifenyddiaeth Polisi UE yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol yng Ngholeg y Drindod gan ganolbwyntio ar Flwyddyn Trafod Rhyngddiwylliannol Ewrop 2008. Llywyddais y digwyddiad, a ystyriodd yr effaith y mae amrywiaeth ieithyddol, ymfudo ac amlddiwylliant wedi ei chael ar yr UE ac ar Gymru, yn arbennig mewn oes o ehangu'r UE a globaleiddio, a phwysigrwydd trafod rhyngddiwylliannol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

Cadeiriwyd y digwyddiad gan Dr Medwin Hughes, Pennaeth Coleg y Drindod, ac ymhlith y prif siaradwyr roedd Jean-Pierre Thomin, aelod o Gyngor Rhanbarthol Llydaw, Alison Crabb, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Addysg a Diwylliant y Comisiwn Ewropeaidd, a Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cefais y cyfle i drafod gyda M. Thomin y gydberthynas ddwyochrog rhwng Cymru a Llydaw a'n cysylltiadau diwylliannol.

Bu'r digwyddiad yn fodd i annog trafodaeth ac ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud ag ieithoedd 'rhanbarthol a lleiafrifol', gan gynnwys y Gymraeg a Llydaweg, a'r rhyngweithio rhwng diwylliannau gwahanol, ar ôl yr ehangu. Cafwyd cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys llywodraethau lleol, cymdeithasau gefeillio trefi, Canolfannau Europe Direct a phrifysgolion.

## Diwrnodau Ymwybyddiaeth Ewropeaidd

Fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu UE Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer codi ymwybyddiaeth o faterion yr UE, trefnodd yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol stondin wybodaeth ym Mharc Cathays ar 26 Medi i ddathlu Diwrnod Ieithoedd Ewrop.

Gwnaethant arddangos a dosbarthu taflenni a llyfrynnau yn dweud wrth gydweithwyr am y broses o ddysgu iaith a chyflawniadau a gweithgareddau'r Undeb Ewropeaidd.

## Addysg A Hyfforddiant

Yn fy adroddiad i'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 19 Mehefin nodais y gwaith a oedd yn mynd rhagddo drwy aelodaeth Llywodraeth

Cynulliad Cymru o Gymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes (EARLALL) i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym maes symudedd addysgol. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac arwyddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Ynysoedd Baleares ar 20 Hydref, pan roedd gweithwyr proffesiynol ym maes AB o Ynysoedd Baleares yng Nghymru yn datblygu cysylltiadau rhwng sefydliadau. Daw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i rym pan gaiff ei arwyddo gan Weinidog Ynysoedd Baleares mewn digwyddiad symudedd rhyngwladol ym Mallorca ym mis Ionawr. Mae'r cysylltiadau hyn ag Ynysoedd Baleares yn dilyn cyfnod o dreialu teithiau cyfnewid rhwng colegau AB yng Nghymru a sefydliadau partner yn Ynysoedd Baleares y llynedd. Mae symudedd myfyrwyr yn nodwedd bwysig o Lywyddiaeth Ffrainc o'r UE, ac o ganlyniad, gellir disgwyl mwy o bwyslais ar symudedd yn y dyfodol, ac rwyf am i fyfyrwyr yng Nghymru allu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu hyn.

## Gŵyl Ryng-Geltaidd Lorient, Llydaw

Cymru oedd Gwlad Anrhydeddus yr Ŵyl ym mis Awst. Yn ystod yr ŵyl 10 diwrnod ymwelodd dros 300,000 o bobl â Phafiliwn Cymru i flasu bwyd a diod o Gymru a dysgu mwy am dwristiaeth ddiwylliannol Cymru a chyfleodd busnes a mwynhau rhaglen helaeth o berfformiadau cerddorol. Cawsom ein cynrychioli gan y Gweinidog dros Dreftadaeth.

## Gŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian

Bydd Cymru yn wlad gwadd yng Ngŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian yn 2009. Cynhelir yr Ŵyl ddiwylliannol flynyddol hon yn yr awyr agored yn ystod cyfnod gwyliau 4$^{ydd}$ Gorffennaf ar y Rhodfa Genedlaethol yn Washington DC. Heno (13 Tachwedd) byddaf yn cynnal digwyddiad yn y Senedd i lansio rhaglen yr Ŵyl yn swyddogol ac i ddisgrifio'r gweithgareddau ategol sydd wedi'u cynllunio fel rhan o brosiect ehangach Smithsonian Cymru i dargedu sectorau a chynulleidfaoedd penodol y tu hwnt i gylch gwaith rhaglen yr Ŵyl ei hun. Mae'r digwyddiad heno yn gyfle i ddiolch i'r holl bartneriaid sydd wedi ymwneud â'r prosiect hyd yma ac yn gyfle iddynt gyfarfod â'i gilydd. Mae hefyd yn gyfle i ni annog rhagor o gymorth ac eiriolaeth gan noddwyr posibl a phartneriaid ychwanegol. Mae'r wasg eisoes wedi dangos cryn ddiddordeb yn y prosiect a bydd y digwyddiad hwn hefyd yn ein galluogi i ddatblygu'r diddordeb hwnnw.

**Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC**
**Y Prif Weinidog**